



## Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Rhys Davies

Effaith y Fyngai Bridio Economaidd (EBI) ar y fuches sy'n lloia yn y gwanwyn ac a gedwir ar borfa yn Iwerddon

Iwerddon

Hydref 2018

Cynnwys


Cefndir .....	1
Hanes a chynnwys yr EBI.....	3
Y Daith .....	4
Diwrnod 1.....	4
Diwrnod 2.....	5
Diwrnod 3.....	7
Diwrnod 4.....	10
Canfyddiadau Allweddol .....	11
Y Camau Nesaf.....	12
Casgliadau.....	13
Diolchiadau.....	13

## Cefndir

Mae fy nheulu a minnau yn amaethu bron iawn 150 erw yn Nhreffynnon, Sir y Fflint, ble'r ydym ni'n godro buches o dros 100 o wartheg Du a Gwyn sy'n lloia yn y gwanwyn ynghyd ag 80 o loi. Byddwn ni'n ceisio sicrhau fod cymaint ag y bo modd o'r buchod yn lloia o fewn y 9 wythnos o'r cyntaf o Fawrth hyd at ddechrau Mai, a chaiff buchod hysb eu difa neu eu cadw i'w gwerthu fel buchod sydd newydd fwrw lloi tua diwedd yr haf. Yn y gorffennol, rydym ni wedi gweithredu system lloia trwy gydol y flwyddyn ac yn yr hydref ar borfa, ond ers 2008, rydym ni'n gweithredu

system lloia yn ystod y gwanwyn ac mae gennym ni gontract gweithgynhyrchu i werthu llaeth i Arla. Rwyf i'n ymddiddori yng ngeneteg ein buches ers i ni gofrestru ein buwch bedigri gyntaf yn 1983, ac rwy'n cofnodi llaeth ers dros 35 mlynedd, sy'n caniatáu i ni ystyried bron iawn deg cenhedlaeth o wybodaeth. Mae gwaed Holstein yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein buches ers blynyddoedd, a bydd fy nhad a minnau yn dal i chwilio am fuchod cytbwys sydd â lled drwyddynt draw, systemau cynhyrchu llaeth cywir ac ymsymud rhagorol. Yn ystod y broses o newid i system porfa a bloc lloea, fe wnaethom ni ganfod yn fuan fod y gwartheg, oedd yn hanu o frid Holstein Gogledd America yn bennaf, yn ddiffygiol o ran ffrwythlondeb, solidau llaeth a sgôr cyflwr. Felly, fe wnaethom ni gyflwyno geneteg gwartheg Du a Gwyn o Seland Newydd ynghyd â geneteg gwartheg Holstein Friesian o Iwerddon a'r Iseldiroedd. Fe wnaeth hyn arwain at fuwch llawer mwy addas ar gyfer y system. Dilynwyd hyn gan gychwyn oes Genomeg, a wnaeth ehangu'r dewis o deirw Du a Gwyn ymhellach hyd yn oed. Ar waethaf hyn, ceir amrywiaeth enfawr yn y fuches, yn amrywio o fuwch o fath Holstein sy'n cynhyrchu llawer o laeth i fuwch lai sy'n groesiad o deirw o Seland Newydd.

Yn y Deyrnas Unedig, y brif fynegai i helpu ffermwyr i ddethol a bridio i sicrhau buchod proffidiol yw £PLI (Mynegai Oes Broffidiol). Am nifer o flynyddoedd, hon oedd yr unig Fynegai oedd ar gael i raddio teirw a buchod, beth bynnag fo'r system yr oeddech chi'n ei gweithredu. Yn 2014, fe wnaeth AHDB Dairy lansio'r £SCI (Mynegai Lloea yn y Gwanwyn), ac yn Haf 2018, fe wnaeth lansio'r £ACI (Mynegai Lloea yn yr Hydref). Mae'r dair system yn ategu strategaeth systemau llaeth optimaidd AHDB. Ar hyn o bryd, rydym ni'n defnyddio'r tair Mynegai i helpu i ddewis teirw a buchod i'w paru - £PLI, £SCI a \$BW (Gwerth Bridio - doler Seland Newydd).



Siart 1. Pwyslais ar wahanol nodweddion yn y Mynegai Lloea yn y Gwanwyn (£SCI).

Y rhesymau dros ddymuno ymweld ag Iwerddon oedd gweld y math o fuwch Du a Gwyn yr oedd y Fynegai Bridio Economaidd (EBI) yn ei chynhyrchu a sut roedd y diwydiant yn cyfrannu data at y system genomeg a phrofi merched ynghyd ag unrhyw ymchwil oedd yn digwydd i danatgu'r Fynegai. Mae gan Iwerddon amgylchiadau tebyg iawn i Gymru o ran topograffeg a hinsawdd,

ynghyd â gallu i dyfu glaswellt â phwyslais cryf ar brosesu i gynhyrchu caws a nwyddau eraill. Mae 85% o fuchesi llaeth lwerddon yn defnyddio system bloc lloea ar borfa, felly mae'r prif ffocws wedi bod ar gynhyrchu system sy'n addas ar gyfer y system benodol honno. Mae llawer o'r teirw sydd ar gael ar gyfer systemau pori gan fusnesau geneteg yn y Deyrnas Unedig hefyd wedi'u bridio yn lwerddon.

## Hanes a chynnwys yr EBI

Cyflwynwyd yr EBI yn 2001 i ddisodli'r RBI (Mynegai Bridio Cymharol) oedd yn bennaf yn cynnwys nodweddion cynhyrchu, yn cynnwys cynnyrch llaeth (Kg). Fe wnaeth hynny arwain at lawer o deirw tramor yn poblogi'r safleoedd uchaf ym mhob rhestr o ganlyniadau profion genetig, ac nid oedd eu data wedi'u haddasu yn seiliedig ar amgylchiadau amgylcheddol gwirioneddol lwerddon. Yn sgil sefydlu'r EBI, rhoddwyd rhagor o bwyslais ar nodweddion economaidd pwysig eraill, yn cynnwys ffrwythlondeb a solidau llaeth, yn enwedig protein. Un arall o agweddau pwysig yr EBI yw cynnwys nodweddion bîff sydd wedi helpu i gynyddu gwerthoedd buchod i'w difa ac wedi caniatáu i'r diwydiant magu gwartheg bîff croes i elwa heb niweidio cyfanswm y KgMS a gynhyrchir. Mae Tabl 1 isod yn dangos pwyslais cymharol gwahanol nodweddion yr EBI.

Sub-Index	Trait	Economic Weight	Trait Emphasis	Overall Emphasis
Production	Milk	-€0.09	10.6%	33%
	Fat	€1.04	3.4%	
	Protein	€6.64	18.9%	
Fertility	Calving Interval	-€12.43	24.0%	35%
	Survival	€12.01	10.9%	
Calving	Direct Calving Difficulty	-€3.52	2.8%	9%
	Maternal Calving Difficulty	-€1.73	1.3%	
	Gestation Length	-€7.49	4.1%	
	Calf Mortality	-€2.58	1.0%	
Beef	Cull Cow Weight	€0.15	0.7%	9%
	Carcass Weight	€1.38	5.1%	
	Carcass Conformation	€10.32	1.7%	
	Carcass Fat	-€11.71	1.1%	
Maintenance	Cull Cow Weight	-€1.65	7.2%	7%
Management	Milking Time	-€0.25	2.1%	4%
	Milking Temperament	€33.69	1.9%	
Health	Lameness	-€54.26	0.6%	3%
	SCC	-€43.49	1.8%	
	Mastitis	-€77.10	0.8%	

(Tabl 1) Pwyslais cymharol prif nodweddion yr is-fynegai ar yr EBI cyfan

Mae bob cynnydd o €1 mewn EBI cyfartalog buches yn werth €1.96 fesul buwch ym mhob cyfnod llaetha o ran elw net. Byddai hynny'n golygu elw ychwanegol o €19,600 yn achos buches â 100 o fuchod ag EBI o €150 o'i gymharu â buches o'r un faint ag EBI o €50 ar gyfartaledd.

## Y Daith

Fe wnes i ddewis wythnos hanner tymor mis Hydref fel cyfnod cyfleus i ymweld ag Iwerddon oherwydd bryd hynny, bydd gan y rhan fwyaf o ffermwyr sy'n lloea yn y gwanwyn rywfaint o amser i'w sbario cyn y cyfnod hesbio prysur ym mis Tachwedd. Hefyd, bydd buchod bron iawn wedi cwblhau eu cyfnod llaetha, ac fe wnaiff hynny ganiatáu i drafodaeth ddigwydd ynghylch cyfanswm y solidau llaeth a gynhyrchwyd, y gyfradd lloea chwe wythnos a SCC cyfartalog ac ati. Bydd cyfle i yrru ar draws Iwerddon yn heulwen odidog yr Hydref yn wledd i'r synhwyrâu, yn sgil yr amrywiaeth trawiadol o liwiau'r dail sy'n disgyn ac arogleuon penfeddw tail gorau Iwerddon, o gofio y bydd y cyfnod chwalu ar ein gwarthau erbyn diwedd yr wythnos honno!

## Diwrnod 1

### Larry Hannon - Fullers Court, Swydd Kildare

Buches o 200 o fuchod wedi'i rhannu'n anifeiliaid sy'n lloea yn yr hydref a'r gwanwyn yn cynhyrchu 6,700kg o laeth â 520kg o solidau fesul buwch, ac â phwyslais ar floc lloea tynn. Bydd 86% o floc lloea'r gwanwyn yn lloea o fewn cyfnod o 6 wythnos a bydd holl fuchod ym mloc lloea'r hydref yn lloea o fewn cyfnod o 6 wythnos. Ei brif feini prawf o ran dewis teirw oedd ffrwythlondeb (bwllch lloea) a solidau llaeth ac roedd ei agwedd at fridio yn hynod o fasnachol. Roedd yn ymddiried yn yr EBI a'r ICBF (Ffederasiwn Bridio Gwartheg Iwerddon) i ddarparu'r math o eneteg roedd yn dymuno ei chael yn ei fuches, ac roedd yn defnyddio meddalwedd diduedd Sire Advice gan ICBF i dethol a pharu ei fuwch yn unigol, ar sail lleihau mewnfridio a gan ddefnyddio cyfartaledd tîm i uchafu EBI y llo oedd yn ganlyniad i'r paru. Roedd y fuches yn dangos pa mor addas oedd yr EBI i fridio buchod effeithlon ar gyfer system cynhyrchu llaeth dan do yn ystod y gaeaf a system cynhyrchu llaeth ar borfa. Roedd y fuches wedi gwneud enillion genetig sylweddol yn ystod blynyddoedd diweddar, ac roedd y criw o loi a gafwyd yn 2018 wedi sicrhau €198, sy'n fwy na €45 dros y cyfartaledd cenedlaethol.



## Diwrnod 2

### Kiearan Hearne, Ballinacurra

Dyma gartref buches Curra sy'n cynnwys 140 o fuchod ac sydd wedi bridio llawer o deirw addas ar gyfer systemau pori ar gyfer Genus a Cogent yn y Deyrnas Unedig, a dyma'r fuches sydd â'r EBI uchaf yn Iwerddon hefyd. Roeddwn i'n disgwyl y byddai meddylfryd y perchennog yn debyg i feddylfryd bridwr gwartheg pedigri yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, roedd y gwirionedd yn groes i fy nisgwyliadau. Mae'r fuches wedi'i chofrestru'n rhannol yn unig â'r IFHA (Cymdeithas Holstein Friesian Iwerddon) ac ni chaiff anifeiliaid eu dosbarthu oni bydd y cwmni bridio yn gofyn am hynny, yn achos buchod sydd â'r potensial i fagu teirw. Nid oedd unrhyw fuwch wedi cael ei rhewnodi, ond ar waethaf hynny, roedd Kieran yn gwybod beth oedd pedigri bob un. Mae cyfansoddiad genetig y fuches yn 70% Holstein Friesian a 30% Friesian Gwyddelig. Mae'r cyfartaledd 305 diwrnod yn 6000kg o laeth â 4.45% o Fraster a 3.77% o Brotein. Roedd profion genomig yn cael eu cynnal ar bob anifail, ac roedd unrhyw loi gwryw ag EBI uchel yn cael eu gwerthu fel teirw bridio i gwmnïau geneteg neu fel teirw a gaiff eu troi at wartheg ar ôl defnyddio teirw potel (*sweepers*) i brynwyr preifat. Ar waethaf gwerth bridio a statws EBI anifeiliaid penodol, ni ddefnyddid semen wedi'i rywio nac ET ar y fferm oherwydd byddai hynny'n peryglu'r tymor lloea byr ac yn lleihau'r potensial i gael llo gwryw EBI uchel gwerthfawr o wahanol deulu o fuchod. Yn ddiddorol iawn, dywedodd Kieran fod dethol ar gyfer EBI dros y blynnydoedd wedi arwain at leihad o dros wythnos yn y cyfnod cyfebru. Mae Kieran wedi addasu i'r sefyllfa hon trwy symud dyddiad cychwyn arfaethedig y lloea ymlaen i ail wythnos mis Chwefror. Caiff tîm o 12 o deirw a enwebir gan y perchennog ei fewnbynnu yn rhaglen Sire Advice ICBF, a phrif ffocws y bridio yw solidau llaeth, ffrwythlondeb a math o fuwch sy'n hawdd gofalu amdani. Un o nodweddion mwyaf trawiadol buches Curra oedd y nifer o fuchod hen iawn (rhai sydd wedi cwblhau 10 neu ragor o gyfnodau llaetha) oedd yn dal yn y fuches ac EBI y buchod hŷn (rhai sydd wedi cwblhau mwy na 4 cyfnod llaetha). Yn wir, roedd EBI cyfartalog y buchod oedd wedi cwblhau pedwar cyfnod llaetha (€185) yn ddwbl y cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd llawer o fuchod unigol wedi bridio teirw nodedig ar gyfer diwydiant teirw potel Iwerddon. Un her oedd yn wynebu buches Curra efallai oedd canfod digon o deirw â'r un rhinweddau genetig rhagorol i barhau i gynyddu EBI yr anifeiliaid iau, oherwydd roedd cyfradd yr enillion genetig yn arafach na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd cyfartaledd y lloea a anwyd yn 2018 yn €199 o'i gymharu â €152 yn genedlaethol. Fe wnaeth y fuches hon argraff sylweddol arnaf i, oherwydd roedd yn defnyddio'r math o fuwch Holstein Friesian rydym ni'n dymuno gallu ei godro yn ein buches ni. Mae gan Kieran gofnodion llaeth rhagorol a gwybodaeth ragorol o ran pedigri ei stoc, ac mae'n rhoi pwyslais ar deuluoedd o fuchod heb niweidio'r ddau amcan bridio allweddol, sef ffrwythlondeb a chyfanswm y solidau llaeth a gynhyrchir. Trwy werthu teirw i brynwyr preifat ac i gwmnïau teirw potel, mae strategaeth fridio ofalus y teulu Hearne wedi dylanwadu ar y diwydiant llaeth ehangach yn Iwerddon ac yn y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n amlwg yn rhywbeth sy'n rhoi boddhad.





(Chwith) Mam Curra High King sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig trwy law Genus (Dde) Merch Pigeonwood RED, tarw sydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar Fuchus Curra

### **Buches NextGen, Killworth, Swydd Cork**

Mae'r fferm hon yn un o is-ffermydd canolfan ymchwil Moorpark Teagasc, ac roedd y fferm yn cynnwys amrywiaeth o grwpiau o fuchod yn cael eu cadw dan amgylchiadau gwahanol, oll ar borfa. Roedd un fuchus o 85 o fuchod yn cael ei godro gan ddefnyddio parlwr godro robotaid dan system bori ABC, ac roedd dwy fuchus arall yn cael eu rheoli o dan yr un amgylchiadau i werthuso effaith geneteg anifeiliaid â gwerth EBI uchel o'i gymharu ag anifeiliaid ag EBI oedd yn is na'r Cyfartaledd Cenedlaethol. Mae astudiaethau ar raddfa lai hefyd yn cael eu cynnal i weld beth yw effaith porthi symiau sylweddol a symiau isel o ddwysfwydydd ar y ddau enoteip. Mae arbrawf arall yn gwerthuso gwartheg Jersey pur sy'n hanu o Ddenmarc a Seland Newydd. Mae buches NextGen wedi cynhyrchu swm sylweddol o ddata ac mae'n parhau i atgyfnerthu'r gwaith a wneir gan yr ICBF i ddatblygu'r EBI. Dyma enghraifft wych o integreiddio yn y diwydiant, ac mae'n fodel y dylid ei ystyried ar gyfer y Deyrnas Unedig i sicrhau fod gan y £SCI ymchwil ac astudiaethau ymchwil penodol ynghylch buches sy'n lloea yn y gwanwyn i gefnogi unrhyw newidiadau i sylfaen y PTA a sefydlu a phwysoli is-fynegeion. Byddai hyn yn caniatáu i'r genetegwyr yn ADHB i brofi nodweddion unigol y £SCI yn rheolaidd a dangos effeithiolrwydd y Fynegai o ran gwella nodweddion allweddol yn achos buchesi sy'n lloea yn y gwanwyn yn y Deyrnas Unedig.

	<b>Buches NextGen</b>	<b>Buches ag EBI Cyfartaledd Cenedlaethol</b>
<b>EBI</b>	203	104

Cyfradd cyfebru 3 wythnos (%)	92%	86%
Cyfradd buchod cyflo 6 wythnos	80%	55%
Cyfradd buchod cyflo 12 wythnos	92%	86%
Solidau Llaeth cronnus (Kg y Fuwch) hyd at wythnos olaf Hydref 2018	423	402

(Tabl 2) Cymhariaeth o ddata perfformiad 2018 y ddwy fuches EBI yn Fferm Killworth

Mae'r data yn y tabl uchod yn fangos yn glir sut mae'r EBI yn dylanwadu ar ddangosyddion perfformiad allweddol dwy fuches a reolir yn yr un modd yn union. Wrth i'r fuches genedlaethol ddatblygu a chynyddu ei EBI, bydd prosiect Kilworth yn parhau i astudio sut y gwnaiff anifail ag EBI sylweddol uwch berfformio o dan amgylchiadau gwahanol ac o fewn paramedrau amrywiol,




yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd, marchnadoedd llaeth a pholisïau'r llywodraeth.

(chwith) Cerflun o fuwch ym Moorepark

### Diwrnod 3

#### ICBF, Brandon, Swydd Cork.

Nesaf, fe wnes i ymweld â phencadlys ICBF, a saif mewn lleoliad hynod o wledig yn Shinagh, Swydd Cork. Fe wnaeth Lisa Ring o'r tîm Gwerthuso Geneteg egluro sut y caiff yr holl ddata sy'n deillio o gofnodion llaeth, cwmnïau teirw potel, lladd-dai, marchnadoedd, symudiadau a'r cymdeithasau bridio amrywiol eu gwerthuso ar y safle. Roedd y ganolfan yn cynnwys un o gyfrifiaduron cyflymaf a mwyaf grymus Iwerddon, oedd yn hanfodol er mwyn gallu dehongli data craidd yn fynegeion ac is-fynegeion ystyriol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch bridio ym muchesi llaeth a chig eidion Iwerddon. Iwerddon yw un o'r ychydig wledydd yn y byd sy'n gallu casglu symiau sylweddol o ddata ariannol ac yn cysylltu hynny â gwelliannau genetig.



**ICBF Database**  
 100k farms serviced  
 30m animals with 100m+ records

- Inseminations, Births & Pedigrees
- Movement Sales & Factory Records
  - 2.8 movements / yr
  - 2m slaughters / yr
- Research & Development
- Genomics: 8.6m genotypes
- Milk Recording & Deliveries
  - 2.6m milk records / yr
- Animal Health & Veterinary

(uchod) Diagramau yn cyfleu ffynhonnell a llif gwybodaeth i'r ICBF ac oddi yno

Female Herd List						Event Details	
FB	Tag Number	DOB	Brd	Sire	EBI	Dry Off Date	Other Events (Mastitis, Lameness, Weights, Dosing etc.)
180	IE123456780180	05/01/03	HO	355	132		
233	IE123456720233	28/01/04	HO	77	84		
295	IE123456760295	28/02/13	HO	825			
297	IE123456780297	23/02/13	HO	720			
320	IE123456770320	13/03/05	HO	0303	101		
430	IE123456710430	30/01/07	FR	9678	133		
441	IE123456740441	22/02/07	FR	0678	47		
444	IE123456770444	25/02/07	FR	0678	94		
455	IE123456710455	10/03/07	FR	0678	124		
458	IE123456740458	14/03/07	FR	0678	118		
464	IE123456730464	22/03/06	HO				
465	IE123456740465	01/04/06	HO		87		
486	IE123456780486	23/04/07	FR	0678	123		
498	IE123456730498	03/05/07	FR	0678	142		

(uchod) Pocedlyfr pwrpasol Herdplus â manylion wedi'u cynnwys ymlaen llaw cyn y cyfnod lloea

Mae HerdPlus yn wasanaeth a ddarperir gan yr ICBF i reoli cofnodion bridio a llif data genetig rhwng y ffermwyr a'r ICBF, ac mae hynny'n caniatáu i gynhyrchwyr wneud penderfyniadau bridio ar sail gwybodaeth. Bydd cynhyrchwyr llaeth yn talu €60 y flwyddyn ynghyd â 50c fesul buwch am amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys adroddiad manwl ynghylch geneteg buchesi. Mae hyn yn cynnwys Sire Advice, sy'n gynllun bridio a pharu pwrpasol sy'n seiliedig ar EBI a'i fwriad yw lleihau mewfridio. Adnodd diddorol arall oedd yn cael ei ddatblygu gan yr ICBF oedd C.O.W



neu 'Cow's Own Worth' – dull o ddewis anifeiliaid dros ben ar sail y gwerth ariannol posibl y byddent yn ei gynnig i'r fuches ar sail eu perfformiad gwirioneddol ac EBI.



(uchod) Mynedfa adeilad ICBF yn Swydd Cork

### **Connor Kehler, Rearour, Swydd Cork**

Dyma'r gyntaf o blith dwy fuches groesfrid y gwnes i ymweld â hwy yn ystod yr ymweliad. Roedd yn fuches yn cynnwys 160 o fuchod yn lloea yn y gwanwyn, ac roeddent yn groesiadau o fridiau Friesian, Jersey a Norwegian Red ar blatfform pori cyfyngedig. Er eu bod yn anghyson o ran eu lliwiau a phatrymau eu cotiau, roedd yn amlwg fod y gwartheg hyn yn gyson o ran eu maint a'u cryfder a'u cyflwr corfforol rhagorol, er clod i'r teulu Kelleher o gofio'r tymor tyfu. Er mai buches groesfrid yw hon, mae hi wedi llwyddo i gynyddu'r EBI yn sylweddol dros y blynyddoedd, ac mae'r EBI cyfartalog yn €29 yn fwy na chyfartaledd y fuches genedlaethol, sy'n cynnwys gwartheg Holstein Friesian yn bennaf. Dau o ddangosyddion perfformiad allweddol amlycaf y fuches oedd cyfanswm uchel y solidau llaeth a gynhyrchir fesul buwch (528kg) a ffrwythlondeb rhagorol (bwlch lloea o 367 diwrnod ar gyfartaledd, cyfartaledd lloea 6 wythnos o 87% a thymor lloea sy'n para 10 wythnos a 3 diwrnod). Yn ychwanegol, fe wnaeth y fferm dyfu cyfartaledd o dros 16tDM o laswellt fesul hectar yn 2017. Fe wnaeth Connor egluro pa mor allweddol oedd y math o fuwch i gynorthwyo i sicrhau fod ei ddull o reoli'r borfa yn cyfrannu at gyflawni 1300Kg/Ha o solidau llaeth ar y fferm. Ei brif nod oedd sicrhau system broffidiol syml oedd yn cynyddu cyfanswm y cynnyrch ond y cyfyngu ar gostau ar yr un pryd, ac yn caniatáu iddo dreulio amser gyda'i deulu ifanc. Yr hyn oedd yn ddiddorol wrth wrando ar Connor oedd y ffaith ei fod yn hollol onest am ei ddiffyg diddordeb yn enwau teirw unigol a'u cefndiroedd, ar waethaf y ffaith fod y fuwch yn elfen allweddol o'i athroniaeth ffermio. Serch hynny, roedd yn hollol gefnogol i'r defnydd o'r EBI ac effeithiau posibl geneteg a bridio da, oedd wedi arwain at y cyfanswm rhagorol o solidau llaeth a gynhyrchir gan ei fusnes a'r ffaith ei fod wedi dod yn rheolwr tir glas sydd wedi cael clod ar y lefel genedlaethol.



(uchod) gwartheg sy'n groesiadau o dri brid yn Hillcrest Dairy

## Diwrnod 4

### John Kelly, Baltinglass, Swydd Wicklow

Fe wnaeth gychwyn godro yn 2015 pan ddilëwyd y cwotâu llaeth yn Iwerddon. Arferai fod yn un o ffermwyr monitro defaid a gwartheg bîff Cymdeithas Tir Glas Iwerddon, ac fe fuddsoddodd mewn parlwr godro saethben a seilwaith llaethydda a phori i sicrhau cynnydd ychwanegol yn y cyfanswm a gynhyrchir fesul hectar. Prynwyd heffrod cyflo o ffermydd o bob cwr o Iwerddon ar sail eu gwerthoedd EBI, oedd yn golygu fod gan John sylfaen dda i gychwyn arni. Er mwyn gallu prynu anifeiliaid, targedwyd buchesi oedd wedi'u sefydlu ers tro byd oedd â chrynodebau EBI, a phrynwyd criwiau sylweddol ohonynt i baratoi at y tymor lloea cyntaf. Mewn cymhariaeth, ni fyddai sylfaen ddibynadwy o wybodaeth enetig ar gael i fuchesi newydd yn y Deyrnas Unedig i allu canfod y mathau hyn o anifeiliaid yn ddibynadwy. Mae llawer o fuchesi newydd yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio gwasanaethau asiantau gwerthu gwartheg o Iwerddon i ganfod anifeiliaid EBI, ac yn anffodus, mae'n debygol eu bod yn anifeiliaid dros ben sydd ag EBI is. Mae'r teulu Kelly bellach yn godro 215 o fuchod sy'n groesiadau o fridiau Friesian Seland Newydd ac Iwerddon a Jersey, ac mae'r fuches wedi llwyddo i sefydlu ei hun yn gyflym ac mae'n rhagori'n sylweddol ar y fuches genedlaethol o ran dangosyddion perfformiad allweddol. Mae buches y teulu Kelly yn enghraifft dda o sut mae EBI wedi helpu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant llaeth i sefydlu busnes godro ymarferol a phroffidiol.



(uchod) Buchod R2 cyflo yn pori cêl â buchod R1 yn y cefndir yn fferm y teulu Kelly, Swydd Wicklow

### Canfyddiadau allweddol

- Cysylltiadau agos rhwng holl bartneriaid y diwydiant – llai o groestynnu nag yn y Deyrnas Unedig (neu felly mae'n ymddangos)
- Mae ymchwil penodol yn Teagasc yn ategu mynegeion genetig
- Nid yw'n fynegai sy'n cael ei rheoli gan gwmnïau teirww potel mawr nac yn cael ei arwain gan deirw tramor sydd â chanlyniadau profion genetig wedi'u haddasu
- Mae gan y diwydiant ymagwedd un system
- EBI wedi llwyddo i gadw ei lle yn dilyn dileu cwotâu llaeth
- Mae lloi i'w difa a lloi sy'n groesiadau o fridiau bíff yn agwedd bwysig o'r EBI
- Mae'r pwyslais bob amser ar ddefnyddio glaswellt yn effeithlon
- Mae buchod ag EBI uchel yn gymedrol eu maint, yn dod yn gyflo'n rhwydd ac yn cynhyrchu cyfansymiau uchel o solidau llaeth
- Mae'n bosibl bridio buchod Du a Gwyn sy'n cynhyrchu cyfanswm o solidau tebyg i'r hyn a gynhyrchir gan fuchod Jersey ac sydd â lefelau o ffrwythlondeb tebyg i wartheg croesfrid
- Trwy fynd ati i Enoteipio lloi gwryw yn helaeth, mae ICBF yn gwella bob buches, nid y rhai sy'n canolbwyntio ar EBI yn unig, oherwydd caiff teirw ag EBI uchel a gaiff eu troi at wartheg ar ôl defnyddio teirw potel (*sweepers*) a theirw ifanc elít eu defnyddio bron iawn yn ddiarwybod gan y ffermwyr hynny sy'n fwy masnachol eu hagwedd

- Mae ffordd o fyw yn bwysig i bob ffermwr, ac maent yn credu y dylai'r fuwch weithio iddynt hwy, nid fel arall.

## Y Camau Nesaf

Fe wnaeth yr ymweliad agor fy llygaid ac atgyfnerthu ymhellach yr hyn oeddwn i'n credu yr oedd angen ei wella, nid yn unig o ran y math o fuwch, ond hefyd ein dull o'i rheoli hi a rheoli'r fuches gyfan.

### **1. Tynhau'r blwch lloea a 'blaenlwytho' teirw Du a Gwyn**

Un o'r pethau cyntaf a ddylai ddigwydd yw atal unrhyw fuchod rhag lloea i deirw du a gwyn wedi'r naw wythnos - caiff gormod o fenywod eu cadw fel stoc newydd o'r buchod hyn sy'n lloea'n hwyrach, sy'n golygu y bydd ffrwythlondeb salach y buchod hynny yn parhau yn y fuches. Dylid ystyried naill ai difa'r buchod hyn fel buchod hysb neu eu gwerthu fel buchod sydd wedi lloea'n ddiweddar ym Mai a Mehefin. Bydd hyn yn gwella'r dull o reoli buchod sydd wedi lloea'n ddiweddar a rhai sydd ar ddechrau'r cyfnod llaeth, ond bydd hefyd yn sicrhau na fydd y fuches yn etifeddu ffrwythlondeb salach.

**2. Dewis un Fyngai i ddethol teirw** - neu sicrhau fod Mynegeion yn cael eu haddasu mor gywir ag y bo modd i greu'r fyngai a ffafrir. Defnyddio adnodd dehongli genomeg Carifide i ddatblygu 'Myngai Lloea yn y Gwanwyn Fferm Moor'.

**3. Defnyddio adnoddau dethol i raddio benywod yn y fuches** – h.y. Bwlch Lloea, Cyfanswm KgMS/y Fuwch, KgMS/KgLW a KgMS/y Diwrnod. Dylai hyn ddisodli meincnodau dethol megis cyfanswm y llaeth mewn Kg, sgoriau dosbarthu a phwy oedd y fam a'r nain.

**4. Nodi grŵp elft o loi benyw sydd wedi cael profion genomeg** wedi'u bridio o fuchod sydd â hanes o ffrwythlondeb a solidau llaeth da ac olrhain cynnydd mewn cymhariaeth â grwpiau eraill o anifeiliaid.

**5. Ymgorffori porthi ar gyfradd wastad yn y parlwr godro** - mae'r drefn bresennol o borthi dwysfwydydd yn arwain at amrywiaeth o ran cymeriant, ac yn ystod blwyddyn sych fel eleni, ni fydd anifeiliaid ysgafnach ac iau yn cael eu dogn lawn o ddeunydd sych, sy'n arwain at rywfaint o anawsterau â BCS sy'n is na'r hyn sy'n arferol. Mae angen ystyried prynu peiriannau porthi newydd ar gyfer y parlwr.

## Casgliadau

Cychwynnodd yr ymweliad fel cyfle i weld pa fathau o fuchod yr oedd yr EBI yn gyfrifol am eu bridio. Fodd bynnag, fe wnes i sylweddoli yn gyflym fod yr EBI yn ganlyniad i integreiddio llawer ehangach yn y diwydiant oedd hefyd yn cael ei sbarduno'n rhannol gan bolisiau adrannau'r llywodraeth. Mae gwaith Teagasc hefyd yn bwysig i hwyluso ymchwil effeithiol a KT â ffocws pendant, ac roedd hynny yn amlwg iawn yn yr ymateb cyflym ac effeithiol a gafwyd gan ymgynghorwyr ffermydd cyfnewid Teasag pan wnes i ofyn am gymorth, ac rwy'n ddiolchgar dros ben am hynny. Roedd yr holl ffermwyr a'r sefydliadau y gwnes i ymweld â hwy yn agored iawn am eu busnes ffermio, ac roeddent yn fwy na bodlon cael trafodaeth ddiwyll ac agored, sy'n rhywbeth braf i'w weld oherwydd mae hynny'n addysgiadol. Ni fyddai canlyniadau'r ymweliad wedi cael eu cyflawni heb yr agwedd agored hon. Unwaith yn rhagor, mae'r cydweithio amlochrog hwn yn y diwydiant wedi bod yn allweddol i lwyddiant yr EBI.

Mae'n amlwg iawn hefyd fod gan gymdeithasau bridiau unigol, y byd dangos stoc a chwmnïau teirw potel lawer llai o ddylanwad yn Iwerddon nag yn y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n caniatáu i ddatblygiad bridiau ganolbwyntio ar ddefnyddio porthiant yn effeithlon ac iechyd anifeiliaid, a chysylltu ag elw cyffredinol y fferm ar yr un pryd.

Yn olaf, gair am y fuwch EBI uchel; mae hi'n fuwch Ddu a Gwyn ddiraffferth, yn pwyso 550kg ac yn ganolig ei maint, sy'n gallu cynhyrchu 5000-8000kg+ ar borfa yn bennaf a gan ddefnyddio cyfanswm cyfyngedig o ddwysfwydydd, ac mae'n gallu cyflawni 9% o solidau yn rhwydd. Bydd hi'n gofyn tarw yn gryf yn gynnar a bydd hi'n dod yn gyflo unwaith eto yn gyflym ar ôl paru unwaith yn unig, wedi pontio'n ddiraffferth o'r cyfnod hesb i gychwyn y cyfnod llaetha, a bydd hi'n llwyddo i gynnal ei chyflwr corfforol yn ystod tywydd sy'n aml yn gyfnewidiol ar adeg troi allan. Mae hi'n fuwch y gallwch chi weld drosti ond nid oddi tani, ac mae ganddi ffrwyn lydan a chorff dwfn eang sy'n caniatáu cymeriant uchel o ddeunydd sych glaswellt, sy'n arwain at droi glaswellt yn llaeth yn effeithlon. Ar yr un pryd, caiff cyfansymiau sylweddol o laeth eu cadw'n hylan mewn cadair ymarferol sydd wedi'i chysylltu'n dda â'i chorff, a gellir ei godro'n gyflym cyn iddi ddychwelyd yn rhwydd ac yn ddiraffferth i'r llain pori. Bydd hi'n defnyddio ei choesau sydd fymryn yn grymanog ac â digonedd o hyblygrwydd yn y plygiad a'i sodlau dwfn i ymsymud yn dda, gan sicrhau cyfnod llaetha heb gloffni, beth bynnag fo'r arwyneb y bydd hi'n cerdded arno. A phan fydd hi wedi cyrraedd diwedd ei chyfnod ar y fferm, yn aml iawn yn agos at ei degfed cyfnod llaetha, bydd hi'n dal yn heini ac â digon o gnawd arni i gynyddu elw fferm ei pherchennog ymhellach.

## Diolchiadau

George Ramsbottom – Teagasc, Tîm Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio a'r holl ffermydd uchod yr ymwelwyd â hwy a'r ICBF.



